**WHC (2022) 031**

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad Cyhoeddi: 8 Rhagfyr 2022**

**STATWS**: **GWEITHREDU**

**CATEGORI**: **IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl: Brechlynnau ad-daladwy a charfannau cymwys ar gyfer Rhaglen Frechu rhag Ffliw Tymhorol (ffliw) y GIG 2023/24**

**Dyddiad dod i ben / Adolygu: Ddim yn gymwys**

**I'w weithredu gan:**

Ymarferwyr Cyffredinol
Fferyllwyr cymunedol
Prif Weithredwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Arweinwyr Imiwneiddio, Ymddiriedolaethau/ Byrddau Iechyd
Cydgysylltwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd
Arweinwyr Ffliw, Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Meddygol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Prif Fferyllwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru

**Anfonir gan:** Prif Swyddog Meddygol Cymru

**Enw(au) Cyswllt GIGC yn Llywodraeth Cymru:**

Gwasanaethau Diogelu Iechyd, Adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Annwyl gydweithiwr

Mae brechiadau rhag y ffliw yn rhan o Raglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol ac mae'n flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru.

Drwy'r Rhaglen Trawsnewid Brechu, yn 2022-23 darparwyd brechiadau rhag y ffliw am y tro cyntaf ochr yn ochr â'r rhaglen brechiadau atgyfnerthu COVID-19, a thasg GIG Cymru oedd archwilio cyfleoedd i sicrhau bod cymaint o bobl yn manteisio ar y brechiadau â phosibl, a chynyddu effeithlonrwydd, gan gydweinyddu'r ddau frechlyn yn fwy pan fo'n bosibl.

Mae Practisau Cyffredinol a Fferyllfeydd Cymunedol yn chwarae rhan sylweddol wrth gyflwyno'r rhaglen brechu rhag y ffliw a'r rhaglen brechiadau atgyfnerthu COVID-19 yr hydref/gaeaf hwn ac er nad yw'r cynlluniau ar gyfer tymor 2023-24 wedi'u cwblhau eto, byddem yn disgwyl i'r dull hwn barhau'r flwyddyn nesaf.

Dylid sicrhau bod cynifer â phosibl yn manteisio ar frechiadau rhag y ffliw mewn grwpiau cymwys eto yn 2023-24, gan ein bod yn rhag-weld y bydd COVID-19 a'r ffliw yn parhau i gylchredeg ar yr un pryd y gaeaf nesaf wrth i gymysgu cymdeithasol barhau i ddychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig.

Mae sicrhau bod nifer uchel yn manteisio ar y ddau frechlyn yn hanfodol i leihau afiachedd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r ddau feirws, ac i leihau'r nifer sy'n treulio cyfnodau yn yr ysbyty yn ystod adeg pan fo'r GIG a gofal cymdeithasol o dan y pwysau mwyaf.

## Grwpiau Blaenoriaeth

Mae grwpiau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fynd yn sâl iawn gyda'r ffliw a/neu heintio aelodau eraill o'r gymuned yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer tymor 2023-24. Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (y Cyd-bwyllgor) wedi gwneud yr argymhellion canlynol yn ei gyngor diweddaraf:

Y grwpiau sy'n gymwys ar gyfer brechiad rhag y ffliw fel rhan o'r rhaglen frechu genedlaethol arferol rhag y ffliw 2023-24 yw:

- plant dwy a thair oed ar 31 Awst 2023
- plant yn yr ysgol gynradd o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6 (yn gynhwysol)
- plant yn yr ysgol uwchradd Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11 (yn gynhwysol)[1]
- pobl chwe mis oed i lai na 64 oed mewn grŵp risg glinigol
- pobl 65 oed a hŷn
- pob oedolyn sy'n byw mewn carchar
- menywod beichiog
- gofalwyr
- pobl ag anabledd dysgu

[1] Bydd cyllid ar gyfer plant mewn ysgolion uwchradd Blwyddyn 7 i Flwyddyn 11 (yn gynhwysol) ac i staff sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen y GIG/Gofal Sylfaenol yn parhau fel rhan o'r rhaglen frechu flynyddol arferol rhag y ffliw. Mae'r cyllid hwn bellach yn cael ei gynnwys yng nghyllidebau craidd y byrddau iechyd.

- staff mewn cartrefi nyrsio a chartrefi gofal sydd â chyswllt rheolaidd â chleientiaid
- staff sy’n darparu gofal cartref
- staff sy’n darparu gwasanaethau rheng flaen y GIG/gofal sylfaenol[2]
- gweithwyr gofal iechyd (gan gynnwys myfyrwyr gofal iechyd) sydd â chyswllt uniongyrchol â chleifion

**Rhaglen Frechu 2023-24**

Darperir canllawiau ar archebu cyflenwadau o frechlynnau rhag y ffliw ar gyfer 2023-24 isod ac maent yn seiliedig ar gyngor y Cyd-bwyllgor.

Uchelgais gyffredinol Rhaglen Frechu’r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol eleni ar gyfer COVID-19 a’r ffliw oedd brechu 75% o bobl. Rydym yn disgwyl uchelgais debyg ar gyfer 2023-24. Rwy’n disgwyl i bractisau cyffredinol, fferyllfeydd, a byrddau iechyd/Ymddiriedolaethau’r GIG gynllunio i sicrhau eu bod yn archebu digon o gyflenwadau o frechiadau rhag y ffliw er mwyn gallu cyflawni uchelgeisiau’r rhaglen.

Rydym wedi mynd y tu hwnt i gyfradd frechu o 75% o ran brechu rhag y ffliw i’r rhai sy’n 65 oed a hŷn am y ddwy flynedd diwethaf ac rydym ar y trywydd iawn i fod yn uwch na’r gyfradd honno eleni. Bydd yr uchelgais hon yn cael ei chadw ar gyfer 2023-24 er y dylem, wrth gwrs, anelu at wella hyn. Bydd cyngor pellach yn cael ei gynnwys yn llythyr ffliw blynyddol y Prif Swyddog Meddygol, a fydd yn cael ei anfon yn gynnar yn 2023.

Wrth ddatblygu cynlluniau comisiynu a chyflawni, dylai byrddau iechyd fanteisio ar gyfleoedd effeithlon ac effeithiol ar gyfer cydweinyddu brechiadau COVID-19 a’r ffliw, lle bynnag y bo modd. Ni ddylai cydweinyddu fodd bynnag, gyfaddawdu cyflymder na hygyrchedd y naill raglen frechu na’r llall.

## Newidiadau ar gyfer 2023-24

<u>Grŵp 50-64 oed â risg isel</u>

Mae’r cyngor ar gyfer 2023-24 yn adlewyrchu argymhellion y Cyd-bwyllgor ar gyfer y tymor 2022-23 gan fod y Cyd-bwyllgor yn ystyried nad oes digon o ddata ar gael i newid y sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, roedd y Cyd-bwyllgor o’r farn y byddai budd iechyd clir o ran brechu’r grŵp 50-64 oed â risg isel, ond roedd yn ansicr a fyddai’r dull hwn yn bodloni gofynion effeithiolrwydd costau llym i gyfiawnhau dargyfeirio o ymyriadau mwy costeffeithiol.

O ystyried y cyd-destun ariannol hynod heriol rydym ynddo ar hyn o bryd, mae angen asesu ymhellach i benderfynu a ddylid cynnwys y grŵp hwn yn y rhaglen brechu rhag y ffliw ar gyfer 2023-24. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yng

---

[2] Bydd gweithwyr rheng flaen y GIG yn cael eu brechu drwy gynlluniau Iechyd Galwedigaethol ac mae contractwyr gofal sylfaenol yn cael eu cynnwys yn y rhaglen genedlaethol.

ngwanwyn 2023, pan fydd y cyfraddau brechu yn 2022-23, ac argymhellion y Cyd-bwyllgor ynghylch rhaglen brechiadau atgyfnerthu COVID-19 yr hydref, ar gael.

Os gwneir penderfyniad i frechu'r grŵp 50-64 oed â risg isel, Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am gaffael y brechlyn mwyaf effeithiol sydd ar gael ar gyfer y grŵp ychwanegol hwn.

<u>Tynnu'r brechlyn ffliw pedwarfalent a feithrinwyd mewn wyau oddi ar y rhestr brechlynnau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer ad-daliad</u>

Er nad yw'r Cyd-bwyllgor wedi cynghori tynnu'r brechlyn penodol hwn oddi ar y rhestr, mae ei gyngor yn awgrymu ond ei ddefnyddio yn y grŵp 50-64 oed â risg isel pan nad yw brechlynnau eraill a ffefrir ar gael. Gan fod y penderfyniad ar gynnwys y grŵp hwn wedi'i ohirio tan y gwanwyn nesaf, nid yw'r brechlyn ffliw pedwarfalent a feithrinwyd mewn wyau (QIVe) bellach ar y rhestr brechlynnau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer ad-daliad yn 2023-14.

Bwriad cyfathrebu'r polisi hwn yn y cyfnod cynnar hwn, i gyd-fynd â chyhoeddi datganiad y Cyd-bwyllgor, yw rhoi eglurder amserol i'ch galluogi i osod eich archebion am gyflenwadau digonol o'r brechlynnau a ffefrir ar gyfer 2023-24.

**Brechlynnau sy'n cael eu had-dalu fel rhan o raglen imiwneiddio'r GIG 2023-24**

Mae'r tabl canlynol yn rhoi cyngor wedi'i ddiweddaru ar frechlynnau a argymhellir ar gyfer 2023-24 a fydd yn gymwys ar gyfer ad-daliad. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai unigolion gael y brechlyn gorau sydd ar gael mewn modd amserol a dylai ymarferwyr archebu'r brechlynnau a ffefrir sy'n cael eu cynghori ar gyfer y grwpiau penodol.

| Y rhai 65 oed a hŷn * | Y rhai 18 oed i lai na 65 oed (gan gynnwys menywod beichiog) | Plant 2 oed i lai na 18 sydd wedi cael eu cynghori yn erbyn/sy'n gwrthod LAIV | Plant 6 mis oed i 2 oed mewn grwpiau risg |
|---|---|---|---|
| • aQIV*<br>• QIVr<br>• QIV-HD<br>• (QIVc lle nad yw aQIV/QIVr ar gael**) | • QIVc<br>• QIVr | • QIVc | • QIVc (oddi ar label) |

Allwedd:

aQIV - adjuvanted quadrivalent influenza vaccine
QIVc - quadrivalent cell culture influenza vaccine
QIVr - quadrivalent recombinant influenza vaccine
QIV-HD – high dose quadrivalent inactivated influenza vaccine

* gellir cynnig aQIV ‘oddi ar label’ i’r rhai sy’n troi’n 65 oed cyn 31 Mawrth 2024.

** Wrth benderfynu a yw brechlyn ‘ar gael’ dylid cydbwyso’r farn glinigol a’r farn weithredol. Dylid pwyso a mesur yr oedi posibl o ran cyrchu’r brechlyn a ffefrir (oherwydd prinder dros dro neu leol neu fethiant swp cenedlaethol) yn erbyn yr amddiffyniad a roddir gan y brechlyn arall. Byddai p’un a yw feirws y ffliw yn cylchredeg neu ar fin dechrau cylchredeg ar y pryd yn ffactor wrth wneud y penderfyniad hwn.

**Rhaglen ar gyfer Plant 2023-24**

Brechlyn ffliw pedwarfalent byw wedi’i wanhau (LAIV) yw’r brechlyn a argymhellir i’w ddefnyddio ar gyfer pob plentyn cymwys rhwng 2 a 17 oed oni bai ei fod wedi cael ei gynghori yn erbyn y brechlyn neu’n ei wrthod oherwydd cynnwys gelatin. Mae LAIV yn cael ei gyflenwi’n ganolog.

Pan fydd brechlyn i’w chwistrellu yn cael ei gynnig fel dewis arall yn lle LAIV o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir uchod, bydd yn gymwys i gael ad-daliad.

Argymhellir bod plant o dan 2 oed mewn grŵp risg glinigol yn cael y brechlyn ffliw pedwarfalent a feithrinwyd mewn celloedd (QIVc). Mae hwn yn argymhelliad oddi ar y label sy’n cael ei gefnogi gan ddata nad yw wedi ei gyhoeddi, sy’n dangos nad yw’r brechlyn hwnnw yn llai effeithiol na’r brechlyn QIVe o ran ennyn ymateb imiwnyddol y grŵp oedran hwn, ac mae ganddo broffil diogelwch tebyg iawn. Nid oes cyflenwad canolog o’r brechlyn hwn a dylid rhoi trefniadau lleol ar waith ar gyfer cyflenwi’r brechlynnau.

**Bydd gweithgynhyrchwyr yn dechrau cynhyrchu brechlynnau yn fuan yn seiliedig ar yr archebion maen nhw wedi’u derbyn. A fyddech cystal â chyflwyno eich archeb cyn gynted â phosibl, gan ystyried ein disgwyliadau a amlinellir yn y llythyr hwn?**

Dylai practisau cyffredinol, fferyllfeydd cymunedol a byrddau iechyd/ymddiriedolaethau adolygu archebion brechlynnau rhag y ffliw gydag uchelgais ar gyfer cyfraddau brechu uchel.

Diolch ichi am eich cefnogaeth barhaus i gynyddu’r nifer sy’n manteisio ar frechiadau rhag y ffliw ac i amddiffyn mwy o bobl rhag y clefyd hwn a allai fod yn ddifrifol ond y gellir ei atal drwy frechlyn.

Yn gywir



**Syr Frank Atherton**
**Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru**

**Atodiad A**

At: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i'w anfon ymlaen at:

Pob Ymarferydd Cyffredinol - byddwch cystal â sicrhau bod y neges hon yn cael ei gweld gan bob nyrs practis a rhai nad ydynt yn benaethiaid sy'n gweithio yn eich practis a chadw copi yn eich pecyn gwybodaeth i feddygon locwm.

Pob Fferyllfa Gymunedol
Gwasanaethau Dirprwyo

At: Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG:

Brif Weithredwyr
Cyfarwyddwyr Meddygol
Cyfarwyddwyr Nyrsio
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
Prif Fferyllwyr
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl
Cydgysylltwyr Imiwneiddio

At: Iechyd Cyhoeddus Cymru:
Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd:
Ymgynghorwyr Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy

Cc: GPC (Cymru)
RCGP (Cymru)
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Cymru

**Dogfennau amgaeedig:** Dim